

BI7: Gwers 3: Cestyll

Nod y Wers: Disgrifio prif nodweddion cestyll cerrig

Tasg 1: Cywir neu Anghywir

Cafodd cestyll mwnt a beili eu hadeiladu yn ystod yr Oesoedd Canol	
Roedd yna drydan mewn cestyll	
Adeiladwyd ffos o gwmpas y castell er mwyn nofio ynddi	
Ystyr y gair 'mwnt' ydy tomen o bridd	
Does dim pont godi mewn castell	

Cafodd cestyll cerrig eu hadeiladu yng Nghymru o gwmpas y flwyddyn 1100. Roeddent yn llawer cryfach na'r hen gestyll mwnt a beili. Roedd waliau'r cestyll wedi eu gwneud allan o gerrig ac roedd giat mawr yn y fynedfa.

Tasg 2: Dewiswch 4 ansoddair i ddisgrifio'r llun isod o gastell Caernarfon.

Mawr Gwan Newydd Cryf Hen Tenau
Bach Tal

Wyt ti'n gallu meddwl am fwy dy hun?



Tasg 3: Beth hoffech chi wybod am gestyll cerrig? Meddyliwch am ddau gwestiwn yn dechrau gyda'r geiriau yma:

Ble.....?

Pam.....?

Roedd y garreg tua 2 fetr o drwch (thickness) ac roeddent yn uchel iawn. Roedd hyn yn golygu bod gan y bobl y tu mewn i'r castell golygfa (view) dda pe bai rhywun yn ceisio ymosod (attack) arnynt. Roedd posib saethu drwy'r ffenestri hefyd. Roedd y ffenestri hyn yn fach iawn ac felly roedd hi'n anodd i'r ymosodwyr (attackers) saethu saethau i mewn. Roedd y ffenestri saethu hyn yn uchel yn y waliau bob tro. Adeiladodd y Normaniaid nifer mawr o'r cestyll hyn ledled y wlad.



Roedd gan y castell cerrig sgwâr broblemau hefyd - roedd hi'n hawdd i ymosodwyr (attackers) tyllu o dan y castell gan wneud i'r waliau ddisgyn.

Tasg 4: Beth oedd cryfderau a gwendidau'r cestyll cerrig?
Gosodwch yr opsiynau yma yn y golofn cywir.

- Roedd y cerrig yn dew.
- Roedd y cestyll yn uchel.
- Gallu gweld pobl yn do di ymosod (attack).
- Ffenestri bach ar gyfer saethu.
- Y waliau yn gallu disgyn.

Cryfderau (Strengths)	Gwendidau (Weaknesses)

